Telerau ac amodau

GWOBR RHODD ARIANNOL

Fel rhan o wobr y gystadleuaeth, bydd yr enillydd yn cael cyfle i enwebu elusen, ysgol neu grŵp cymunedol cofrestredig i dderbyn rhodd gan y trefnwyr.

Rhaid i'r derbynnydd a enwebir:

- Fod yng Nghymru neu'n darparu gwasanaethau er budd pobl Cymru'n bennaf.
- Bod yn elusen gofrestredig, sefydliad addysgol, mudiad nid-er-elw, grŵp gwirfoddol, mudiad cymunedol neu'n gorff arall a gymeradwywyd gan y trefnwyr.
- Bod â chyfrif banc yn enw'r mudiad y gellir talu'r rhodd iddo'n uniongyrchol.
- Gallu dangos y bydd unrhyw rodd a dderbynnir yn cael ei ddefnyddio at ddibenion elusennol, addysgol neu fudd cymunedol.

Ni ellir rhoi'r rhodd i:

- Unigolyn neu deulu unigol.
- Apeliadau codi arian personol nac ymgyrchoedd codi arian torfol.
- Pleidiau gwleidyddol, ymgyrchoedd gwleidyddol na mudiadau sy'n canolbwyntio'n bennaf ar weithgarwch gwleidyddol.
- Mudiadau neu achosion sy'n hyrwyddo gwahaniaethu, casineb, trais neu weithgareddau anghyfreithlon.
- Unrhyw fudiad y mae'r trefnwyr yn credu'n rhesymol y gall beri risg i enw da, risg gyfreithiol neu risg foesegol.

Mae'r trefnwyr yn cadw'r hawl i wirio statws ac addasrwydd y mudiad a enwebwyd cyn cyflwyno'r rhodd. Os credir nad yw derbynnydd a enwebwyd yn gymwys, bydd yr enillydd yn cael ei wahodd i enwebu mudiad arall.

Mae penderfyniad y trefnwyr ynghylch cymhwysedd derbynwyr y rhoddion yn derfynol.

Mae'r trefnwyr yn cadw'r hawl, yn ôl eu disgresiwn llwyr, i wrthod unrhyw dderbynnydd a enwebir nad yw'n cyd-fynd â gwerthoedd ac amcanion Wythnos Elusennau Cymru. Mewn amgylchiadau o'r fath, gofynnir i'r enillydd enwebu mudiad cymwys arall.